

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 25ain o Iwanwr 2023 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Berwyn Harding, Wyn Lewis, John P Jones, Rhys Davies, Geraint Morgans, Arfon Hughes, Sion Alun Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson, gan ddymuno Blwyddyn newydd dda i bawb. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Idris Jones a Cyng Lynne Mccrickett.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr ar gynnig Cyng. Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding.

4. Materion yn codi

- a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yr ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a Cefnffyrdd ers tro diwethaf. Nodwyd fod y darn cul yn Lawnt y Plas wedi ei darmacio erbyn hyn oedd yn newyddion da. Adroddwyd am y diweddaraf yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas lle nad oedd sicrwydd o berchnogaeth. Gwelwyd y dylai Cyngor Gwynedd gymryd cyfrifoldeb, ac awgrymwyd cael cyfarfod ar y safle.
Yng nghyswllt y coed sydd angen eu cwmpo ar y gefnffordd uwchlaw Dinas, cytunodd Cyng Wyn Lewis ac Arfon Hughes i wneud trefniant i ymweld a'r safle, ac adrodd erbyn y tro nesaf.
- b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddodd y Cadeirydd y Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau, a'r cyswllt gyda'r Parc Cenedlaethol. Roedd y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd ond yn talu am 3 Bwrdd Dehongli, ac roedd angen mwy o gyllid i 2 arall. Byddai rhaid edrych ar hyn eto.
- c) **Darnau o dir heb eu cofrestru yn y Dinas** – nodwyd e-bost Cyng Arfon Hughes a oedd wedi ei ddanfôn i bawb. Nid oedd neb wedi ymateb, felly nid oedd unrhyw le dan sylw heblaw am y tir yn Minllyn.
- d) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – adroddwyd y diweddaraf, a chadarnhawyd y byddai yn iawn i'r Clerc roi y manylion ar y wefan. Mynegwyd peth beirniadaeth am yr angen i gael hyfforddiant, a gwelwyd y dylai y Clerc gael gair gyda chlercod eraill i gael eu profiadau hwy.
- e) **Meddygfa Machynlleth** – darllenwyd ymateb Katie Blackburn, Prif Swyddog CIC Powys. Roeddynt yn parhau i ddisgwyl ymateb gan y Bwrdd Iechyd. Gwelwyd y byddai yn beth da siarad a Chlercod/ Cynghorwyr Cymuned Dyffryn Dyfi i weld pa fath o ymateb a gafwyd i gwynion tebyg.

4. Materion Cynllunio

Roedd un cais cynllunio wedi ei ddsbarthu l'r Cynghrowyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/L167H - Trosi capel i dŷ a gosod ffenestri to i'r edrychiad cefn a gosod uned trin carthion - Capel Tarsus, Cwm Cywarch, Dinas Mawddwy. SY20 9JG.

Nodwyd mai cael caniatad l uned trin carthion oedd yn ychwanegol y tro hwn, ac nid oedd barn y Cyngor wedi newid, sef y byddai hyn yn well nag adfail yno.

5. Materion Cyllid.

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (25/01/23), sef Cyfri Cyfredol £4326.54, Cyfri Claddedigaeth £1567.87 Cyfri Cadw £769.47.

Cadarnhawyd talu cydnabyddiaeth trydydd chwarter i'r Clerc, sef £434.95, a HMRC £108.80.

O ran y Cyfrif Claddedigaeth, nodwyd derbyn £44 am ail-osod cofeb i'r diweddar Meirianwen Edwards ym mynwent Llanymawddwy.

Gyda chyfeiriad at y Pwyllgor Cyllid a oedd wedi cyfafod ymlaenllaw, aethpwyd drwy holl daliadau fyddai yn gwynebu y Cyngor o hyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, a darllenwyd yn llawn cesiadau am arian i law gan CFFI Meirionnydd, Yes Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru. Atgoffwyd pawb hefyd fod yn arferiad gan y Cyngor i gyfrannu i Neuadd Dinas ac Aberangell yn flynyddol. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Arfon Hughes yng nghyswllt cais CFFI a Yes Cymru, a Cyng Catrin Johnson yng nghyswllt Neuadd Dinas Mawddwy)

Cyfeiriwyd hefyd yn fyr at gyllideb 2023-24 a oedd wedi ei baratoi, ac a drafodwyd yn yr Is-Bwyllgor Cyllid.

Codwyd mater lwfansau Cynghorwyr, a dywedodd pawb oedd yn bresennol na fyddent yn hawlio unrhyw gostau yn y flwyddyn 2022-23.

Roedd dau gais gerbron am finiau halen newydd, sef ffordd Deunant a ffordd i Dugoed Isaf, ond gwelwyd na allai y Cyngor Cymuned gytuno i hyn oherwydd y sefyllfa ariannol oedd yn bodoli.(cost o £400 yr un) Yn y cyswllt hyn, gofynnodd y Clerc am fanylion unrhyw finiau halen angen eu llenwi – roedd hyn wedi ei gynnwys mewn e-bost ymlaenllaw. (nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn ail-lenwi heb gost i'r Cyngor Cymuned.)

Yng ngwyneb y ffaith fod rhaid edrych yn fanwl ar faint o arian oedd ar gael gan y Cyngor eleni, penderfynwyd gohirio penderfyniad ar y cesiadau tan y cyfarfod nesaf, oherwydd byddem yn gwybod pryd hynny holl geisiadau fyddai gerbron yn y flwyddyn ariannol bresennol.

6. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd ddau eitem o ohebiaeth yng nghyswllt Eglwys Llanymawddwy. Roedd e-bost gan Richard Vaughan Jones, Caethle , Tywyn yn codi sawl agwedd o beth ddylai gael ei ddiogelu pe bai yr Eglwys yn cael ei gwerthu fel ty preswyl, ac hefyd yn nodi siom fod y coed oedd bob ochr i fynedfa yr Eglwys wedi eu torri. Hefyd roedd e-bost gan Nona Wyn Davies, Waunfawr Aberystwyth a Maesmor Llanymawddwy yn nodi siom am dorri y 6 coeden hynafol, ac yn dyfynnu y Blewyn Glas yn Mehefin/Gorffennaf yn dweud mai eu 'tocio a'u tacluso ' oedd wedi ei benderfynnu. Roedd yn dweud fod y coed yn harddu'r fynedfa, ac yn ychwanegu urddas l'r lleoliad cysegredig.

Gwelwyd y dylid gofyn I'r Cyng John P Roberts beth oedd y cyfarwyddiadau a roddodd, a chael eglurhad. Gofynnwyd beth oedd y cofnod yng nghyfarfod y Cyngor yn Mehefin/ Gorffennaf, ac roedd yn ymddangos nad oedd torri y coed wedi ei awdurdodi gan y Cyngor llawn. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gymal 23 o'r Rheolau sefydlog yn y cyswllt yma (Gweithgareddau anawdurdodedig) a darlennodd hyn i'r cyfarfod.

- b) Nodwyd byddai Cyfarfod Cyffredinol Meirionnydd Un Llais Cymru ar Nos Fercher 15fed Chwefror, gyda Liz Saville Roberts yn wraig wadd.
- c) Darllenwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder, - roedd yr e-bost wedi ei ddanfôn allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Nodwyd fod angen mwy o arwyddion yn Lawnt y Plas i rwystro cerbydau aros dros nos, ac hefyd arwyddion ar Dolybont i rwystro cerbydau rhag mynd i lefydd i wneud llanast. Gofynnwyd a fyddai modd cael cerrig mawr yno i rwystro hyn, hefyd nodwyd fod rhai o'r polion pren ochr y ffordd wedi pydru. Roedd angen son i ddechrau wrth y Parc Cenedlaethol.
- b) Gofynnwyd beth oedd sefyllfa y mastiau ffon oedd wei eu caniatu, ac a oedd defnydd ohonynt.
- c) Roedd ffens blastig ar lawr ar yr A458 rhang y garej a Pont ar Wysgen, ac angen sylw.
- d) Dywedodd y Cyng Arfon Hughes ei fod am wneud diwrnod casglu sbwriel eto, ac os oedd rhywun a diddordeb i gysylltu gydag ef.
- e) Roedd coed rhodedendron yn gwyro i'r ffordd ar dop Rhiw Landrin, ac roedd angen gwneud cwyn i Cyngor Gwynedd.
- f) Gofynnwyd am y diweddaraf gyda'r Hen Fynwent yn Dinas, a dywedodd Cyng Catron Johnson ei bod yn parhau i ddisgwyl gwybodaeth gan Nansi Thirsk y Gyfreithwraig.
- g) Gofynnwyd am y diweddaraf am sefyllfa y llwybr rhwng y Gofgolofn a Minllyn.
- h) Er gwybodaeth y Cyngor, nodwyd fod digwyddiad ar Ddydd Sadwrn 4ydd Chwefror gan 'Plannwch y Plas'
- i) Soniwyd am yr angen i dorri gwrych rhwng Tyrpeg a Dugoed Bach, a bod enw y perchennog ar gael, ond nid oedd cyfeiriad i law.
- j) Roedd gwaith ei angen ar ffordd Llanymawddwy – nifer o dyllau yn y ffordd ger Boncyn, ac hefyd o dan Brynuchaf. Hefyd roedd angen gwaith ar ffordd Cywarch, ac angen arolygu.
- k) Soniwyd eto am y ffordd o Eglwys Mallwyd i fyny am Plas Uchaf, a bod tyllau angen eu llenwi. Nodwyd fod hyn wedi ei godi sawl gwaith o'r blaen, a bod y dynodiad yn lwybr troed yn unig. Awgrymwyd danfon nodyn at Parch Miriam Beecroft i weld a fyddai hi yn fodlon danfon llythyr i Cyngor Gwynedd.
- l) Gofynnwyd os oedd unrhyw ddatblygiad ar y cais i gael llwybr troed ar ochr yr A470 rhwng Dinas a Mallwyd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER
8fed Mawrth 2023 , 7.30yh.**

